

Adroddiad Ariannol
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru 2003-2004



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cyhoeddwyd gan:
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NP

Testun Cymraeg: Catherine Jones
Cynhyrchu: Mari Gordon
Lluniau'r clawr blaen a chefn © Paul Avis
Dylunio: Andrew Griffiths Design
Argraffu: MWL Digital Solutions

© Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 2004.

ISBN 0 72000554 X

Mae'r Adroddiad hwn ac Adroddiad Blynyddol AOCC ar gael
ar safle gwe AOCC sef www.aocc.ac.uk.

Argraffwyd yr adroddiad hwn ar bapur ecogyfeillgar.

- Papur heb glorin yw hwn (Papur TCF). Mae hyn yn golygu bod y mwydion papur wedi cael eu cannu heb ddefnyddio unrhyw gemegau clorin o gwbl. Cymysgedd o hydrogen perocsid ac ocsigen yw'r hylifau cannu sy'n cael eu defnyddio erbyn hyn. Nid yw'r rhain yn creu tocsinau niweidiol, ond maen nhw'n rhoi'r un canlyniad.

- Dim ond o gyflenwyr sy'n gweithredu fforestydd cynaliadwy y daw'r deunyddiau crai a brynwyd o'r tu allan. Sgîl-gynnyrch prosesau cynhyrchu eraill yw llawer o'r deunyddiau crai h.y. gwastraff melinau llifio a gwastraff o deneuo fforestydd (coed afiach, coed sydd wedi'u difrodi neu a fyddai'n cael eu llosgi fel arall).

Adroddiad Ariannol

Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru

2003-2004

Cynnwys

Adroddiad Ariannol y Cyngor	4
Llys y Llywodraethwyr, Cyngor a Bwrdd y Rheolwyr	11
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol	13
Datganiad ar y System Reoli Fewnol	14
Tystigrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	15
Cyfriflen Gyfunol o'r Gweithgareddau Ariannol	16
Mantolen Gyfunol	18
Cyfriflen Llif Arian Gyfunol	19
Nodiadau ar y Cyfrifon	20

Adroddiad Ariannol y Cyngor

Cefndir Statudol

Cafodd Amgueddfeydd ac Oriellau Cenedlaethol Cymru (AOCC) ei sefydlu drwy Siarter Brenhinol fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym 1907. Mae AOCC yn elusen gofrestredig annibynnol, ac fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad caiff ei ariannu'n bennaf drwy gymhorthdal grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ei weithgareddau craidd yn cynnwys datblygu ei gasgliadau, gofalu amdanyn nhw, eu hastudio a'i gwneud yn hawdd i bobl fynd atyn nhw er budd y gymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (1907, diwygiwyd 1991) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

yn bennaf drwy ddarlunio'n llwyr ddaear, mwynoleg, swoleg, botaneg, ethnograffeg, archaeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru trwy gasglu, diogelu, egluro a chyflwyno pob gwrthrych a pheth.

Nodau ac Amcanion AOCC

Dyma nodau ac amcanion cyfoes AOCC :

- Hybu dealltwriaeth a gwybodaeth eang am dreftadaeth a diwylliant Cymru a'i rôl yn natblygiad a hanes y byd;
- Rhoi gwasanaeth amgueddfa genedlaethol i Gymru sy'n ganolfan ragoriaeth ryngwladol. Gofalu am ein casgliadau cynyddol o fri a phwys cenedlaethol a rhyngwladol yn y ffordd orau bosibl;
- Trwy ein casgliadau a'n harbenigedd, annog pobl i ymchwilio, astudio a gwerthfawrogi'r celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau a thechnoleg;
- Ysbrydoli cynulleidfa sy'n tyfu o hyd i ymweld â'n hamgueddfeydd rhagorol ac elwa ar eu hadnoddau a'u cyfleusterau amrywiol;
- Datblygu ein holl adnoddau mewn ffordd ddoeth, a'u defnyddio mewn ffordd greadigol ac effeithiol, gan fod yn ddarbodus a sicrhau ein bod ni'n cael gwerth ein harian

Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddisgrifir yn *Cymru: Gwlad Well*. Y rhan o weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad sydd fwyaf perthnasol i AOCC yw 'cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a helpu i greu gwlad ddwyieithog'.

Nodir polisiau Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â'r dimensiwn hwn mewn sawl strategaeth ategol. Wrth ddatblygu rhaglenni sy'n hyrwyddo cynladwyedd, cydraddoldeb a chynnwys pobl, mae gan AOCC rôl bwysig wrth gyfrannu at y gwaith polisi a amlinellir mewn tair dogfen yn arbennig:

- *Dysgu Byw'n Wahanol*
- *Cymru Greadigol – Strategaeth Ddiwylliant i Gymru*
- *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*

Safleoedd

Yn 2003-04, roedd AOCC yn gweithredu chwe amgueddfa ar draws Cymru:

Yr Amgueddfa ac Oriellau Genedlaethol, Parc Cathays, Caerdydd
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
Amgueddfa'r Llang Rufeinig, Caerllion, Casnewydd
Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd
Amgueddfa Wlân Genedlaethol, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin
Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru, Blaenafon, Torfaen

Yn ogystal, mae yna drefniadau partneriaeth i reoli dau safle arall sef:

Amgueddfa Rufeinig Segontium, Caernarfon, Gwynedd
Oriellau Tŷ Turner, Penarth, Bro Morgannwg.

Cafodd dau ddatblygiad cyfalaf mawr eu cwblhau a'u cyflwyno i'r cyhoedd mewn dwy amgueddfa yn 2003-04.

Pwll Mawr

Tan Chwefror 2001, roedd y Pwll Mawr wedi bod yn gweithredu fel Ymddiriedolaeth Elusennol annibynnol a Chwmni Cyfyngedig. Yn 2001-02, daeth o dan fantell Amgueddfeydd ac Oriellau Cenedlaethol Cymru. Cafodd ailddatblygiad cyfalaf gwerth £7.1m ei gwblhau yn Hydref 2003 a chafodd y Pwll Mawr ei ail-lansio yn Chwefror 2004.

Mae'r elfennau newydd yn cynnwys oriel mwyngloddio, lle mae'r ymwelwyr yn cael eu tywys drwy gyfres o gyfnodau sy'n dangos datblygiad mwyngloddio modern gyda chymorth rhith-löwr; ac arddangosfeydd wedi eu hailddatblygu a'u hailwampio ym Maddonau Pen y Pwll, sy'n edrych yn fanwl ar hanes diwydiant glo Cymru.

Yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol

Caeodd hen Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru ar 1 Mawrth 2002 ac agorodd eto o dan ei enw newydd, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol, ar 31 Mawrth 2004. Roedd y rhaglen fuddsoddi gwerth £2.6m yn cynnwys atgyweirio hen adeiladau rhestredig y felin a chreu gwell cyfleusterau i ymwelwyr, cyfleusterau addysg penodedig, a dehongliad modern o'r casgliadau.

Mae'r ddau broiect yn hanfodol i strategaeth ddiwydiannol AOCC. Rydyn ni'n buddsoddi £40m mewn ardaloedd Amcan Un yng Nghymru i ddathlu ei threftadaeth ddiwydiannol diolch i gymorth Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid ariannu eraill. Mae'r strategaeth yn cwmpasu tair amgueddfa – y Pwll Mawr, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol ac Amgueddfa Lechi Cymru – yn ogystal â datblygiad Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

Fformat y Cyfrifon

Cafodd y cyfrifon eu paratoi o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriellau 1992 ar ffurf a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Mae copi o'r Gyfeirb Cyfrifon ar gael drwy wneud cais i'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae cyfrifon AOCC yn cyd-fynd â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2000) 'Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau'. At ddibenion y SORP, Adroddiad Ariannol y Cyngor yw Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr.

Canlyniadau a Chyllid

Daeth gwerth £4,940,000 o adnoddau cyfunol net i mewn i AOCC cyn costau enwol (£4,552,000 yn 2002-03). Daeth £24,983,000 o adnoddau i mewn i AOCC (£24,965,000 yn 2002-03) a gwariwyd cyfanswm o £24,411,000 (£21,533,000 yn 2002-03) cyn costau enwol. Y cynnydd net mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn ar ôl cymryd yr holl enillion a cholledion wedi, a heb eu gwireddu i ystyriaeth oedd £6,762,000 (cynnydd net o £907,000 yn 2002-03). £77,286,000 oedd balans y gronfa ar 31 Mawrth 2004 (£70,524,000 ar 31 Mawrth 2003). Cofnododd Mentrau AOCC Cyf. elw o £69,289 cyn cymorth rhoddion i'r Amgueddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-04 (£30,456 yn 2002-03). Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o weithgareddau masnachu AOCC i'r is-gwmni masnachol hwn sy'n llwyr eiddo i AOCC o 1 Ebrill 2003 ymlaen.

Dangosyddion Perfformiad

Perfformiad yn erbyn targedau dangosyddion perfformiad sylfaenol Llywodraeth y Cynulliad yn ôl llythyr Gorchwyl AOCC:

Dangosydd perfformiad sylfaenol	2003-04 targed	2003-04 canlyniad	2002-03 canlyniad
1 Nifer yr ymwelwyr	1,250k	1,222k	1,278k
2 Nifer yr ymweliadau â'r wefan	610k	719k	541k
3 Y canran o'r lle oedd yn bodloni'r safonau priodol o ran casglu a storio	57%	57%	57%
4 Canran yr ymwelwyr oedd o ddosbarthiadau cymdeithasol C2, D ac E	38%	32%	37%

Nodiadau

- Roedd niferoedd terfynol yr ymwelwyr 2.2% yn is na'r targed, ond 59.7% yn uwch na'r lefelau a welwyd cyn cyflwyno mynediad am ddim.
- Mae'r cynnydd sylweddol yn nifer yr ymweliadau â'r wefan yn adlewyrchu'r gwelliannau a wnaed i'r safle yn 2003-04.
- Mae'r canran o le storio sy'n bodloni'r safonau priodol wedi aros yr un fath, ond bydd y datblygiadau sydd ar y gweill, a gaiff eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, yn gwella'r sefyllfa'n aruthrol.
- Mae'r ffigurau'n dangos ein bod ni'n dychwelyd yn rhannol at y proffil ymwelwyr a welwyd cyn cyflwyno mynediad am ddim. Mae hyn yn amrywio o un safle i'r llall. Mae AOCC wrthi'n trafod mesurau mwy ystyrlon sy'n adlewyrchu sut rydyn ni'n ymrwymo ein gwahanol gynulleidfa oedd gyda swyddogion y Cynulliad.

Perfformiad Talu'n Brydlon

Mae AOCC yn cefnogi amcanion côd ymarfer *Better Payment* Trysorlys Ei Mawrhydi a'i nod yw talu anfonebau dilys cyn pen 30 diwrnod. 12 diwrnod oedd y cyfnod cyfartalog ar gyfer talu anfonebau yn 2003-04 (12 diwrnod yn 2002-03), a thalwyd 95% o anfonebau cyn pen 30 diwrnod (97% yn 2002-03).

Codi Arian a Gwirfoddolwyr

Heb gyfrif yr ymgyrch arbennig i godi arian ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, cafodd AOCC ei ganlyniadau gorau erioed o ran codi arian. Denodd projectau cyfalaf eraill fel y Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol grantiau mawr oddi wrth bob math o ymddiriedolaethau a sefydliadau. Rhagorodd pob un o'r arddangosfeydd ar eu targedau incwm diolch i gefnogaeth amrywiaeth o nodwyr corfforaethol ac unigol, gan gynnwys Cyfeillion AOCC, ac apeliodd ein gweithgareddau Addysg at wirfoddolwyr a chefnogwyr eraill wrth i ni dderbyn dros £60,000 mewn rhoddion oddi wrth gwmgniau ac ymddiriedolaethau.

Y Cynllun Noddwyr yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o ddenu rhoddion gan unigolion ac mae aelodaeth y Noddwyr yn dal i dyfu. Mae incwm o gymynroddion yn dal i ddilyn patrwm o un rhodd fawr bob dwy flynedd.

Buddsoddiadau Cyfalaf ac Asedau Sefydlog

Cafodd Cymhorthdal Grant Cyfalaf AOCC ei ddefnyddio'n bennaf fel sail i'r datblygiadau cyfalaf mawr yn y Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol. Gwariwyd tipyn hefyd ar welliannau lechyd a Diogelwch, cynnal y seilwaith TGCh a thrwsio to'r Castell yn yr Amgueddfa Werin.

Cafodd y gwaith yn y Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol ei gwblhau yn fwy neu lai yn ystod y flwyddyn. Cafodd y project ailddatblygu gwerth £7.1m yn y Pwll Mawr ei ariannu gan grant oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) (£5.3m), Grant Adfywio Lleol (GALL) (£0.5m), grant Bwrdd Croeso Cymru (BCC) (£0.4m) a grantiau a rhoddion eraill (£0.9m). Ar 31 Mawrth 2004, roedd y cyfanswm o £6.6m wedi cael ei wario ar y project.

Cafodd y project ailddatblygu gwerth £2.6m yn yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol ei ariannu drwy grant CDL (£1.0m), grand ERDF (£0.4m) a thrwy grantiau a rhoddion eraill gan gynnwys cyllid cyfatebol oddi wrth AOCC (£1.2m). Ar 31 Mawrth 2004, roedd cyfanswm o £2.5m wedi cael ei wario ar y project.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd Llywodraeth y Cynulliad yn cadw swm o £2.1m oedd yn weddill (o'r £4.5m gwreiddiol) ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Cafodd y swm ei dynnu i lawr i'w wario ar waith adeiladu yn 2003-04.

Mae polisiau AOCC yn caniatáu ar gyfer ailbricio asedau'n broffesiynol pob 5 mlynedd, ac maent yn cael eu hailbricio gan ddefnyddio mynegeion yn y cyfamser. Yr unig eithriadau yw asedau TG, nid yw'r rhain yn cael eu mynegeo am fod pris asedau TG yn disgyn dros amser, ac asedau treftadaeth. Nid yw'r asedau treftadaeth a ddaeth i feddiant cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu ac mae asedau treftadaeth a gafwyd ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi yn ôl eu cost. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r fam bod cost priso asedau treftadaeth yn afresymol.

Caffael Sbesimenau

Prynwyd 2 beth mawr yn 2003-04:

Portread o Omai, Joseph Banks a Dr Solander gan William Parry. Prynwyd y darn ar y cyd â'r Oriol Bortreadau Genedlaethol ac Oriol Capten Cook, Whitby. Cost net cyfran yr Amgueddfa oedd £105k ar ôl cyfraniad o £89k oddi wrth yr Oriol Bortreadau Genedlaethol, £39k oddi wrth y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol a £4k o roddion preifat gan unigolion.

Y Ddol Japaneaidd gan Gwen John am gost net o £48k i'r Amgueddfa. Cafodd hyn ei ategu gan gyfraniad o £48k oddi wrth Ymddiriedolaeth Derek Williams a £15k oddi wrth y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol.

Mae manylion yr holl asedau treftadaeth a ddaeth i feddiant yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn Nodyn 10 i'r cyfrifon.

Datblygiadau ar gyfer y Dyfodol

Datblygiadau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA)

Mae AGGA'n cael ei datblygu ar y cyd â Dinas a Sir Abertawe fel project gwerth £31m. Bydd yr Amgueddfa'n cymryd lle hen Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru a hen Amgueddfa Diwydiant a Môr Abertawe.

Cyflwynwyd ceisiadau am grantiau i gyrrff ariannu er mwyn manteisio i'r eithaf ar y symiau sydd ar gael o werthu Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru. Mae grantiau mawr wedi dod i law oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£10.699m), Amcan 1 yr UE (£2.6m, a ategwyd yn ddiweddarach gan swm pellach o £1.1m), Awdurdod Datblygu Cymru (£2.5m) a Bwrdd Croeso Cymru (£1.5m). Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yna £3.3m ar ôl i'w ffeindio drwy weithgareddau codi arian, ond mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i roi £6m i warantu'r project ac wedi rhoi cymorth o ran llif arian.

Mae'r gwaith yn datblygu yn ôl y darged, ac mae ffabrig yr adeilad newydd wedi ei gwblhau. Bwriedir agor yr Amgueddfa newydd yn haf 2005.

Datblygiadau yn y Strategaeth Storio

Mae Cyngor AOCC wedi cytuno i strategaeth a fydd yn golygu buddsoddi mewn cyfleusterau storio ar draws yr Amgueddfeydd, ond yn fwyaf nodedig yn yr Amgueddfa Werin a'r Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol, yn ogystal â'r Ganolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol yn Nantgarw. Bydd hyn yn bodloni holl amcanion AOCC o ran gofalu am gasgliadau, yn dod â manteision pellach o ran mynediad ac yn lleihau'r angen am symud casgliadau i ffwrdd oddi wrth eu hamgueddfeydd a'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhellion Adroddiad y SAG ar Reoli Casgliadau yn AOCC, sy'n dweud y dylid ystyried materion cadwraeth a storio ochr yn ochr â materion mynediad.

Mae astudiaeth hyfywedd wedi cael ei chyflawni ar y cynigion hyn yng nghyd-destun cyllideb datblygu cyfalaf o ryw £5m. Er bod Llywodraeth y Cynulliad wedi clustnodi £3.5m ar gyfer y gwaith, mae'n debygol y bydd angen i AOCC ffeindio tua £1m o'i adnoddau ei hun ar gyfer y cynllun ar ben y cyllid o'r tu allan. Os bydd y Cynulliad yn cytuno, y gobaith yw dechrau gwaith ar y project yn 2004-05, a'i gwblhau erbyn 2007.

Y Polisi ar Gronfeydd Cadw

Mae'r polisi ar gronfeydd cadw'n dibynnu ar yr awdurdod a roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Natganiad Rheoli a Memorandwm Cyllid AOCC, sy'n cyfyngu'r cronfeydd cadw i 2% o gyfanswm y gyllideb gros a 10% o'r derbyniadau. Mae AOCC yn ceisio mantoli'r gyllideb bob blwyddyn gan gyrraedd y trothwy elw o ran incwm a gwariant a gynllunnir. Wrth ddilyn y polisi, caiff unrhyw arbedion o gyllidebu yn ystod y flwyddyn eu harallgyfeirio i flaenoriaethau cyfoes AOCC, ac er mwyn helpu yn hyn o beth, mae AOCC yn croesawu cynnig Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gario 3% yn rhagor o'r cymorthdal grant na hawliwyd oddi wrth y Cynulliad ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn i fod i ddod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05, a bydd yn helpu i reoli a chyfeirio'r gwariant yn ystod y flwyddyn.

Mae cronfeydd preifat yn cael eu cynnal ar wahân a'u nodi yn y cyfrifon. Nid oes unrhyw derfyn cario drosodd ar y rhain, a pholisi AOCC yw adeiladu'r cronfeydd hyn a'u defnyddio ar brojectau a chynlluniau cyfalaf nad ydynt yn derbyn cyllid craidd.

Caiff elw'r is-gwmni masnachol sy'n llwyr eiddo i AOCC, sef Mentrau AOCC Cyfyngedig, ei ddefnyddio i ariannu'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion AOCC. Gallai hyn olygu bod elw'n cael ei ail-fuddsoddi yn yr is-gwmni masnachu er mwyn gwella'r canlyniadau masnachu. Bydd y trefniadau i drosglwyddo elw i AOCC yn rhoi sylw priodol i gadw goblygiadau treth y gwaith masnachu mor isel â phosibl.

Cyfanswm Cronfeydd AOCC ar 31 Mawrth 2004 oedd £77,286,000. Mae dadansoddiad yn y nodiadau i'r Cyfrifon Ariannol.

Polisi a Pherfformiad Buddsoddiadau

Yr ymgynghorwyr buddsoddi Gerrard Cyf. sy'n buddsoddi cronfeydd preifat AOCC ar ei ran. Mae yna agwedd ddarvoudus o ran risgiau, mae'r cronfeydd yn cael eu buddsoddi mewn portffolio risg canolig ac mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn buddsoddiadau arian parod. Caiff perfformiad y cronfeydd hyn ei adolygu'n gyson. Cododd gwerth y portffolio'n gyson â chodiad cyfartalog buddsoddiadau o'r fath yn ystod y flwyddyn, o £1,218k i £1,524k.

Cafwyd etifeddiaeth gwerth £64k yn ystod y flwyddyn, ac fe'i cadwyd fel buddsoddiad ecwiti mewn 10 cwmni da. Bydd AOCC yn monitro perfformiad a datblygiad y gymynrodd yn gyson.

Rheoli Risg

Mae Cyngor, Pwyllgorau a Chyfarwyddwyr AOCC yn cadw llygad barcud ar y risgiau strategol, busnes a gweithredol o bwys sy'n wynebu AOCC. Maent wedi sefydlu system sy'n defnyddio Grŵp Rheoli Risgiau er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon yn cael eu hadolygu a'u nodi, a bod trefniadau'n bodoli i gymryd camau i liniaru unrhyw risgiau. Bu'r mesurau hyn ar waith drwy gydol y flwyddyn yn unol â chanllawiau Pwyllgor Turnbull ac SORP 2000. At hynny, mae'r holl risgiau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan annatod o'r broses cynllunio corfforaethol ac maent yn bwydo'r cynllun archwilio mewnol.

Mae'r risgiau mawr a nodwyd drwy'r broses Rheoli Risgiau'n cynnwys risgiau ariannol fel dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad a newidiadau polisi tymor byr nad ydynt yn cyd-fynd â phrif nodau ac amcanion AOCC, y potensial o orwario ar y gyllideb, y diffyg yn y cynllun pensiwn ac anawsterau wrth ddenu cyllid cyfatebol ar gyfer gwaith aildatblygu mawr oherwydd newidiadau yn yr amodau economaidd. Mae sgil-ffeithiau posibl o ran ystâd AOCC yn gysylltiedig â'r risgiau ariannol, fel cyfleusterau cadwraeth a storio gwael neu amhriodol a diffyg gwaith cynnal-a-chadw ar adeiladau a pheiriannau.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae gan AOCC gynllun pensiwn â buddion diffiniedig sydd ar gael i'r holl staff. Fel y mwyafrif helaeth o'r cynlluniau hyn, mae cyfuniad o leihad yng ngwerth asedau'r cynllun ar ffurf Buddsoddiadau Ecwiti mewn blynyddoedd diweddar, a ffactorau eraill fel natur gyfnewidiol Bondiau a gwell cyfraddau marwolaeth, wedi arwain at ddiffyg ym mhrisiad actwariaidd diweddaraf y cynllun.

Mae nodyn 16 i'r Adroddiad Ariannol yn cynnwys y manylion datgelu y gofynnir amdanynt o dan Ddatganiad Adroddiad Ariannol 17. Mae'r rhain yn cymharu gwerth asedau'r cynllun heddiw â'i rhwymedigaethau posibl. Cyfrifwyd diffyg o £15.8m ar 31 Mawrth 2004. Mae hyn ychydig bach yn well na ffigur y llynedd, sef £16.2m, am fod gwerth asedau'r cynllun wedi codi. Mae'r rhwymedigaethau wedi codi'n sylweddol yn ôl y gwerthusiad actwariaidd hefyd. Mae FRS17 yn gofyn ein bod ni'n datgan union lefel y diffyg yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol a'r fantolen am y tro cyntaf eleni, gan nodi ffigurau'r flwyddyn flaenorol hefyd at ddibenion cymharu.

Er y dylid nodi y gallai'r diffyg grisialu dros nifer sylweddol o flynyddoedd yn y dyfodol, mae AOCC yn chwilio am ffyrdd o'i ddatrys. Mae Ymddiriedolwyr y Cynllun wedi cytuno i becyn o fesurau sy'n cynnwys cynnydd o 3% yn ein cyfraniadau fel cyflogwyr a fydd yn helpu i reoli'r diffyg. Yr unig bethau fydd yn ennill tir gyda'r diffyg hwn fydd gwelliant sylweddol yn y Farchnad Ecwiti yn ystod y flwyddyn nesaf, neu gyfraniad cyfalaf mawr. Yn y cyfamser, bydd AOCC yn parhau i edrych ar y posibilrwydd o dynnu'r cynllun i mewn i Brif Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, wrth gymryd rhywfaint o gysur o'r ffaith fod y diffyg yn y cynllun wedi cael ei gynnwys yn y diffyg posibl mewn pensiynau sydd wedi cael ei nodi yng nghyfrifon Llywodraeth y Cynulliad.

Y camau a gymerwyd o ran cyflogi gweithwyr anabl

Mae gan AOCC drefn recriwtio anwahaniaethol ac rydyn ni bob amser yn barod i ystyried ceisiadau oddi wrth bobl anabl, a'u penodi. At hynny, mae'r Amgueddfa'n gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau angenrheidiol i allu gweithio'n effeithiol. Yn ogystal, mae Cynllun Corfforaethol AOCC yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod adeiladau a gwybodaeth AOCC yn fwy hygyrch i bobl anabl. Mae gweithgor, o dan gadeiryddiaeth un o'r Cyfarwyddwyr, yn sicrhau bod AOCC yn cyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabled.

Polisi Iaith

Mae AOCC wedi paratoi Strategaeth Prif-ffrydio ddrafft ar gyfer 2004-05 a'r tu hwnt i ategu Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog*. Roedd hyn yn gofyn ein bod ni'n adolygu ein Cynllun Iaith a'n Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu i adlewyrchu dyheadau *Iaith Pawb* a disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad.

Mae prif-ffrydio'n golygu ystyried y Gymraeg ym mhob rhan o'n gwaith ac ym mhopeth a wnawn ni, gyda'r nod o sicrhau ein bod ni'n manteisio ar bob cyfle i:

- hybu a chefnogi'r Gymraeg a lles siaradwyr Cymraeg
- cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad i greu Cymru ddwyieithog.

Bydd polisiau AOCC ym meysydd cyfeiriad deallusol, themâu ar gyfer casgliadau, arddangosfeydd a digwyddiadau a phortreadu Cymru i bobl eraill yn nodweddiadol amlwg hefyd. Mae ein rôl wrth gyflwyno'r casgliadau cenedlaethol a llwyfannu arddangosfeydd sy'n dangos ochr ieithyddol ein treftadaeth a'n diwylliant yn golygu bod Prif-ffrydio'r Gymraeg yn rhoi dyletswyddau a chyfleoedd unigryw i ni.

Y camau a gymerwyd i gynnal neu ddatblygu'r dulliau o rannu gwybodaeth ac ymgynghori â staff

Mae AOCC yn rhannu gwybodaeth gyda'i staff drwy wahanol dulliau gan gynnwys cylchredeg pwyntiau sylw i'r holl staff yn gyson, rhoi memoranda agored ar fewnrwyd AOCC, dosbarthu memoranda i Benaethiaid Adrannau ac ymgynghori a thrafod gyda'r Undebau Llafur cydnabyddedig a chynnal cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda nhw.

Aelodaeth y Llys a'r Cyngor

Ym 1990, cafodd AOCC, sy'n elusen gofrestredig (Rhif Elusen 525774, Rhif TAW. GB 783 4541 10), Siarter Brenhinol a Statudau atodol newydd. Roedd y Siarter newydd yn newid cyfansoddiad Llys a Chyngor AOCC ac yn cadarnhau mai 'Amgueddfa Genedlaethol Cymru' ('The National Museum of Wales') yw'r corff corfforaethol sy'n olynu'r corff a enwyd yn y Siarter gwreiddiol. Diwygiwyd y Siarter yn 2000 i gydnabod awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr awdurdod gweithredol yw'r Cyngor sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu cyllid ac eiddo AOCC, sef yr holl arian a ddaw oddi wrth y Trysorlys neu o ffynonellau eraill, a'r holl diroedd, adeiladau, neu roddion mewn da a roddir ar ran y sefydliad. Mae'r Cyngor yn cwrdd yn gyhoeddus yn gyson i drafod ei fusnes. Mae'n dirprwyo awdurdod i wahanol is-bwyllgorau, a'r Bwrdd Rheoli sy'n ymdrin â materion gweithredol bob dydd.

Mae manylion aelodau'r Llys a'r Cyngor a enwebwyd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymadael ac wedi ymuno, mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr AOCC. Mae AOCC yn cadw Cofrestr Buddiannau sy'n cynnwys manylion unrhyw gwmnïau y maent yn gyfarwyddwyr arnynt a buddiannau sylweddol eraill. Mae'r gofrestr ar gael i'r cyhoedd.

Yr Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn ôl gofynion Adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992. Mae manylion tâl yr archwilydd ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 yn Nodyn 6 i'r Cyfrifon.

Prif Swyddfa

Prif swyddfa AOCC yw: Yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

Prif Ymgynghorwyr

Bancwyr	Lloyds TSB, Caerdydd
Cyfreithwyr	Morgan Cole, Caerdydd
Archwilwyr Mewnol	PriceWaterhouse Coopers, Caerdydd
Rheolwyr Buddsoddiadau	Gerrard Cyf. Caerdydd
Rheolwyr y Gronfa Bensiynau	Mercer Human Resource Consulting, Bryste
Trethiant	Deloitte & Touche, Caerdydd

Michael Houlihan

Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 12 Awst 2004

G. Wyn Howells

Trysorydd, ar ran y Cyngor
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 12 Awst 2004

Llys y Llywodraethwyr

(O 1 Ebrill 2003 i 12 Awst 2004)

Llywydd

Paul E. Loveluck CBE, JP

Cyn-lywydd diwethaf

Mathew Prichard CBE, DL, BA

Is-lywydd

Dr Susan J. Davies BA

Trysorydd

G. Wyn Howells ACIB

Aelodau'r Cyngor nad ydynt yn Aelodau o'r Llys

J. W. Evans CBE, MA
Yr Athro. C. L. Jones OBE, FRSA
M. A. J. Salter FCA
Jane Peirson Jones MA, FMA

Penodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dr P. T. Warren CBE, MA
Linda D. Quinn M.Sc
C. Malcolm Parry
Yr Athro. D Egan
H. R. C. Williams
Rhiannon Wyn Hughes MBE

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gwag

Prifysgol Cymru

Mair Waldo Thomas
Yr Athro J. King

Cydbwyllgor Addysg Cymru

Y Cyngorydd D. Parry Jones (tan 31 Mai 2003)
Y Cyngorydd G. Richards (o 1 Mehefin 2003)

Aelodau Seneddol Cymru

W. Griffiths AS

Penodwyd gan y Llys

D. Bowen Lewis
Dr W. B. Willott CB
C. Rowland
H. Mansfield
Yr Athro J. Last CBE (o 22 Mai 2003)
Dr Iolo ap Gwynn (o 22 Mai 2003)

Cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol

Y Cyngorydd J. G. Jenkins
Y Cyngorydd R. W. Hughes
Y Cyngorydd P. G. Larsen
Y Cyngorydd P. M. Thomas
Dr C. Grace
Y Cyngorydd R. Francis-Davies
Y Cyngorydd D. Rogers
Y Cyngorydd J. A. H. Harries
Y Cyngorydd R. Cass
Y Cyngorydd R. H. Poole
Y Cyngorydd J. Huish
Y Cyngorydd D. I. Bowen

Sefydliadau yng Nghymru

Cymdeithas Archaeoleg Cambria	Gwag
Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol	G. E. Humphreys
Cymdeithas Amgueddfa Genedlaethol Cymru	H. Looker
Cyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru	R. Francis-Davies
TUC Cymru	A. Wellington
Cyngor CBI Cymru	Gwag
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	M. A. McLaggan
Cyngor Celfyddydau Cymru	Cadeirydd
Bwrdd Croeso Cymru	J. Jones
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru Cyf.	Gwag
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Prif Weithredwr
Cyngor Archaeoleg Prydain	F. L. Llewelyn
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru	C. J. Delaney

Y Cyngor

(O 1 Ebrill 2003 i 12 Awst 2004)

Llywydd

Paul E. Loveluck CBE, JP

Cyn-lywydd Diwethaf

Mathew Prichard CBE, DL, BA

Is-lywydd

Dr Susan J. Davies BA

Trysorydd

G. Wyn Howells ACIB

Penodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dr P. T. Warren CBE, MA

Yr Athro D. Egan

H. R. C. Williams

Rhiannon Wyn Hughes MBE

Penodwyd gan Lys Y Llywodraethwyr

D. Bowen Lewis

Dr W. B. Willott CB

Yr Athro J. Last CBE (o 22 Mai 2003)

Dr Iolo ap Gwynn (o 22 Mai 2003)

Penodwyd gan y Cyngor

J. W. Evans CBE, MA

Yr Athro C. L. Jones OBE, FRSA

M. A. J. Salter FCA

Jane Peirson Jones MA, FMA

Bwrdd y Rheolwyr

(O 1 Ebrill 2003 i 12 Awst 2004)

Cyfarwyddwr Cyffredinol	Michael Houlihan (penodwyd 14 Ebrill 2003)
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol	Eurwyn Wiliam
Cyfarwyddwr Cyllid	Jon Sheppard
Cyfarwyddwr Amgueddfa Werin Cymru	John Williams-Davies
Cyfarwyddwr yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol	Michael Tooby
Cyfarwyddwr Gweithredol	Mark Richards
Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Robin Gwyn

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992, rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr (Cyngor) Amgueddfa Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratwir y cyfrifon i ddangos darlun gwir a theg o weithgareddau ariannol AOCC yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn

Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i'r Ymddiriedolwyr:

- gadw at gyfarwyddyd cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a'u defnyddio mewn ffordd gyson;
- barnu ac amcangyfrif mewn ffordd resymol a chall;
- nodi a yw'r safonau cyfrifo a'r datganiadau o arferion cymeradwy perthnasol wedi i cael eu dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw eithriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ar sail busnes hyfwr, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd AOCC yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifo Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys bod yn gyfrifol am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano a chadw cofnodion priodol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gyfrifol hefyd am gadw'r datganiad o gyfrifon yn gyfoes lle bo hwnnw'n cael ei gyhoeddi'n electronig.

Datganiad ar y System Reoli Fewnol

1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Swyddog Cyfrifo a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw system rheoli fewnol gadarn sy'n helpu i wireddu'r polisiau, y nodau a'r amcanion a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, a hynny wrth amddiffyn y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo o ran Cyfrifon y Llywodraeth.

2. Pwrpas y system reoli fewnol

Bwriad y system reoli fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu unrhyw risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; nid yw'n rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond mae'n cynnig sicrwydd rhesymol.

Wrth wraidd y system reoli fewnol mae fframwaith o wybodaeth gyson i reolwyr, rheoliadau ariannol, trefniadau gweinyddol, gan gynnwys rhannu dyletswyddau a dirprwyo ar wahanol lefelau yn ôl cyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru (yr Ymddiriedolwyr). Proses barhaus yw hon i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion AOCC, pwysu a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn a'u heffaith, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Roedd y system yn gweithredu trwy gydol y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blyneddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys.

3. Y Fframwaith Risgiau

Grŵp trawsadrannol penodol sy'n goruchwyllo'r gwaith o Reoli Risgiau. Mae'r grŵp yn adolygu'r cynnydd wrth reoli risgiau mawr, ac yn trafod newidiadau sy'n codi o ran y bygythiadau posibl i wireddu nodau AOCC gyda'r Penaethiaid Adran yn gyson.

Mae'r Polisi a'r Canllawiau Rheoli Risg yn disgrifio'r fframwaith, y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau rheoli risg ynghyd â chanllawiau ar adnabod, asesu, monitro a rheoli risg.

4. Adolygiad o effeithiolrwydd

Mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol hefyd am adolygu effeithiolrwydd y system reoli fewnol. Mae'r Grŵp Rheoli Risgiau, yr archwilwyr mewnol, yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio – sy'n goruchwyllo gwaith yr archwilwyr mewnol – a sylwadau archwilwyr allanol eraill yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill yn bwydo'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y system rheoli fewnol. Mae yna gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau sy'n codi ac i sicrhau gwelliannau parhaus.

Mae AOCC wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal system effeithiol o reolaeth fewnol:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr a'i hadolygu'n rheolaidd gan y Rheolwyr, y Cyfarwyddwyr a'r Ymddiriedolwyr, ar ffurf adroddiadau ariannol chwarterol sy'n disgrifio perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon.
- Pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall a monitro'r cynnydd yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Adolygu Perfformiad.
- Canllawiau clir ar gyfer rheoli buddsoddiadau cyfalaf.
- Adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol yn ôl y safonau a bennir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae'r rhain yn cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system rheoli fewnol ac yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella.

Michael Houlihan
Swyddog Cyfrifo
12 Awst 2004

G. Wyn Howells
Trysorydd, ar ran y Cyngor
12 Awst 2004

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwy'n tystio fy mod i wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 16 i 34 o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd gan yr adbrisiad o asedau sefydlog a'r polisiau cyfrifo a ddisgrifir ar dudalennau 20 a 21.

Cyfrifoldebau'r Cyngor, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Archwilwyr

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 13, mae Cyngor a Chyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, fel y Swyddog Cyfrifo, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed odanynt ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gyfrifol hefyd am baratoi gweddill cynnwys yr adroddiad blyneddol. Mae fy nghyfrifoldebau i fel archwiliwr annibynnol wedi eu sefydlu drwy statud. Rwy'n cadw safonau a chanllawiau'r Bwrdd Arferion Archwilio mewn golwg ynghyd â'r canllawiau moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Byddaf yn adrodd fy marn ynghylch p'run a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a gawsant eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddaf yn adrodd fy marn o ran a gafodd y gwariant a'r incwm, ym mhob modd perthnasol, eu cymhwysu ar gyfer y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn adrodd os yw'r Rhagair yn anghyson â'r datganiadau ariannol yn fy marn i, os na fydd yr Amgueddfa wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os na fyddaf yn derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn ystyried a yw'r datganiad ar dudalen 14 yn dangos bod yr Amgueddfa wedi cydymffurfio â chanllawiau 'llywodraethu corfforaethol: datganiad ar y system rheolaeth ariannol fewnol' y Trysorlys. Byddaf yn nodi os nad yw'n bodloni gofynion y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwy'n ymwybodol ohoni o archwilio'r datganiadau ariannol. Nid oes gofyn i mi ystyried a yw Datganiad y Swyddog Cyfrifo ar Reoli Mewnol yn cwmpasu'r holl risgiau. Nid oes gofyn i mi roi barn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Amgueddfa na'i threfniadau risg a rheoli.

Sail y farn

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'n cynnwys archwiliad, ar sail profion, o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae'n cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfamiadau sylweddol y mae'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn eu gwneud wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Amgueddfa, yn cael eu harfer yn gyson ac yn cael eu datgelu mewn digon o fanylder.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth ac esboniadau oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamfyneiant materol; boed hynny'n anfwriadol, neu drwy dwyll neu fathau eraill o afreoleidd-dra, bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso'n gyffredinol addasrwydd y dull o gyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Y Farn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a'r Grŵp ar 31 Mawrth 2004, o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r modd y'u defnyddiwyd a llif arian y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddyd a wnaed yn odani gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ym mhob ffordd faterol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

Syr John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru
7 Medi 2004

Y Swyddfa Archwilio Gwladol
3-4 Park Place
Caerdydd CF10 3DP

Cyfriflen Gyfunol o'r Gweithgareddau Ariannol

ar Gyfer y Flwyddyn Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2004

Nodiadau	Cronfeydd Cyhoeddus		Cronfeydd Preifat		2003-04	Ailddatgan	
	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfanswm £'000	2002-03 Cyfanswm £'000	
Adnoddau i Mewn							
Rhoddion a Chymynroddion	2	98	31	243	241	613	731
Gweithgareddau Datblygu							
Gwrthrychau:							
Grantiau	3	4,532	16,954	0	0	21,486	21,772
Gweithgareddau Codi Arian:							
Incwm o Fuddsoddi		0	0	17	46	63	70
Incwm y Siop		0	0	0	0	0	939
Incwm o'r is-gwmni masnachol	4	0	1,285	0	0	1,285	199
